Grantiau Troseddau Casineb – Hydref 2016

Cafodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru £4,000 gan Lywodraeth Cymru i'w wario ar Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb 2016. Rhoddodd y Comisiynydd beth o'r arian hwnnw i Gydlynwyr Cydlyniad Cymunedol Gogledd Cymru er mwyn caniatáu i sefydliadau trydydd sector wneud cais am arian ar gyfer digwyddiadau i nodi Wythnos Ymwybyddiaeth Casineb.

Gwnaeth y sefydliadau isod geisiadau llwyddiannus am arian:

Sefydliad	Swm	Digwyddiad
Rainbow Biz	£400.00	Cyfraniad tuag at Gŵyl Amrywiaeth 2017
Family Friends	£365.00	Digwyddiad teuluol i gynyddu gwybodaeth ynghylch Troseddau Casineb.
CLPW- Comunidade da Lingua Portuguesa de Wrecsam	£600.00	Bydd CLPW CIC a Chyngor Hil Cymru yn cynnal dau ddigwyddiad, un yn Wrecsam ac un yn Sir y Fflint er mwyn lledaenu ymwybyddiaeth o droseddau casineb.
GISDA	£870.00	Gweithdy yng Nghaffi Te a Cofi ar y sgwâr yng Nghaernarfon ar gyfer pobl ifanc 14-15 oed er mwyn archwilio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a'u profiadau o droseddau casineb a'u heffeithiau .
NWAMI	£300.00	Amrywiaeth o ddigwyddiadau yng Nghanolfan Ymgysylltiad Diwylliannol Gogledd Cymru gan gynnwys seminarau a sesiynau gyda siaradwyr yn trafod troseddau casineb.
Cymorth i Ferched De Gwynedd a Gorwel	£330.00	Codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb drwy wasanaethau a roddir, yn arbennig gwasanaethau camdriniaeth ddomestig a phobl hŷn. Dosbarthu posteri a thaflenni a gwybodaeth yn y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o droseddau casineb. Darparu gwybodaeth am sut i riportio troseddau casineb.